***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1397 (Cy.169) (C.52)

# IECHYD MEDDWL, CYMRU A LLOEGR

## Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 2) 2012

*Gwnaed* - - - - *28 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 52(2) a 55(3) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 2) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

### Darpariaethau'r Mesur sy'n dod i rym ar 6 Mehefin 2012

**2.** Mae darpariaethau canlynol y Mesur yn dod i rym ar 6 Mehefin 2012—

(a) Adran 12 (ystyr "claf perthnasol");

(b) Adran 13 (ystyr "darparydd gwasanaeth iechyd meddwl");

(c) Adran 14 (dyletswydd i benodi cydgysylltydd gofal ar gyfer claf perthnasol);

(d) Adran 15 (dynodi'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol ar gyfer claf perthnasol);

(e) Adran 16 (darpariaeth bellach ynghylch penodi cydgysylltwyr gofal);

(f) Adran 17 (dyletswydd i gydgysylltu darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o'r Mesur;

(g) Adran 18 (swyddogaethau'r cydgysylltydd gofal) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o'r Mesur;

(h) Adran 19 (trefniadau ar gyfer asesu defnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd);

(i) Adran 20 (dyletswydd i gynnal asesiadau);

(j) Adran 21 (methiant i gytuno ar drefniadau);

(**1**) 2010 mccc 7.

(k) Adran 22 (hawl i asesiad);

(l) Adran 23 (asesiadau: y cyfnod rhyddhau perthnasol);

(m) Adran 24 (darparu gwybodaeth am asesiadau);

(n) Adran 25 (diben asesu);

(o) Adran 26 (asesiadau: darpariaeth bellach);

(p) Adran 27 (camau yn dilyn asesiad);

(q) Adran 28 (atgyfeiriadau sy'n ymwneud â gwasanaethau tai neu wasanaethau llesiant);

(r) Adran 29 (penderfynu man preswylio arferol);

(s) Adran 30 (cymhwysiad y Rhan hon i bersonau o dan warcheidiaeth awdurdod lleol);

(t) Adran 41 (cydweithio a gweithio ar y cyd rhwng Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 a Rhan 3 o'r Mesur;

(u) Adran 42 (rhannu gwybodaeth) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 a Rhan 3 o'r Mesur;

(v) Adran 43 (diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 a Rhan 3 o'r Mesur;

(w) Adran 46 (Rhan 3: y pŵer i sicrhau darpariaeth ranbarthol); ac

(x) Adran 47 (rheoliadau o ran yr unigolion y caniateir iddynt gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol a gweithredu fel cydgysylltwyr gofal) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o'r Mesur.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Mai 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adrannau 52(2) a 55(3) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ("y Mesur"). Mae erthygl 2 yn rhestru'r darpariaethau sydd i ddod i rym ar 6 Mehefin 2012.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn Rhan 2 o'r Mesur, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol yn penodi cydgysylltydd gofal ar gyfer cleifion perthnasol. Mae Rhan 2 hefyd yn pennu swyddogaethau cydgysylltydd gofal. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn cychwyn Rhan 3 o'r Mesur, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer asesu defnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Cychwynnir hefyd rai o ddarpariaethau Rhan 5 o'r Mesur, i'r graddau y maent yn ymwneud â Rhannau 2 a 3.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol y Mesur wedi eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru a Lloegr gan orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Darpariaeth* | *Dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 1 | 8 Mai 2012 | 2011/3046 (Cy.321) (C.116) |
| Adran 2 | 8 Mai 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 4 | 8 Mai 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 5 | 8 Mai 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 11 | 8 Mai 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 31 | 3 Ionawr 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| | 2 Ebrill 2012 (yn llawn) | |
| Adran 32 | 3 Ionawr 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 33 | 2 Ebrill 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 34 | 3 Ionawr 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| | 2 Ebrill 2012 (yn llawn) | |
| Adran 35 | 3 Ionawr 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 36 | 2 Ebrill 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 37 | 3 Ionawr 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 38 | 2 Ebrill 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 39 | 3 Ionawr 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| | 2 Ebrill 2012 (yn llawn) | |
| Adran 40 | 3 Ionawr 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |

| *Darpariaeth* | *Dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| | 2 Ebrill 2012 (yn llawn) | |
| Adran 43 | 8 Mai 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 44 | 3 Ionawr 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 45 | 8 Mai 2012 | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| Adran 53(1) | 3 Ionawr 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| | 2 Ebrill 2012 (yn llawn) | |
| Adran 54 | 3 Ionawr 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| | 2 Ebrill 2012 (yn llawn) | |
| Atodlen 1 | 3 Ionawr 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| | 2 Ebrill 2012 (yn llawn) | |
| Atodlen 2 | 3 Ionawr 2012 (yn rhannol) | 2011/3046 (Cy.321)(C.116) |
| | 2 Ebrill 2012 (yn llawn) | |

*Gweler* hefyd adran 55(1) o'r Mesur, ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar y dyddiad ddau fis ar ôl cymeradwyo'r Mesur gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.